



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Ioan 20: 24-29		
<p>1 Doedd Tomos ddim yno pan wnaeth Iesu ymddangos (Tomos oedd yn cael ei alw 'Yr Efail' — un o'r deuddeg disgybl). Dyma'r lleill yn dweud wrtho, "Dŷn ni wedi gweld yr Arglwydd!"</p>		
<p>2 Ond doedd Tomos ddim yn eu credu.</p>		
<p>3 Ei ymateb oedd, "Nes i mi gael gweld ôl yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau hynny a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!"</p>		

-
- 4 Wythnos yn ddiweddarach roedd y disgyblion yn y tŷ eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Roedd y drysau wedi eu cloi.



-
- 5 Daeth Iesu i mewn a sefyll yn y canol a dweud, "Shalôm!"




-
- 6 Ystyr "Shalôm", ydy "Heddwch i chwi".



-
- 7 Trodd Iesu at Tomos a dweud, "Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynndyn nhw....."



-
- 8 Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i....



9Stopia amau! Creda!"



10 A dyma Tomos yn dweud, "Fy Arglwydd a'm Duw!"



11 "Rwyt ti wedi dod i gredu am dy fod wedi fy ngweld i," meddai Iesu wrtho.



12 "Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr."



13 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net

